# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2710A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y ffordd mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân yr un â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 11

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – ffi archwilio 21

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2021 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Cynhaliwyd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19, wrth wella gwasanaethau ar yr un pryd. Cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru yn y ffordd orau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Mae gwaith archwilio ar y safle yn parhau i gael ei gyfyngu, ac roeddem yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Fel yn 2020, nid oedd cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom y gwaith, ond hefyd wrth ystyried ystyriaethau ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant o ran cyflawni yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd i groesawu a galluogi ffyrdd newydd o weithio ac aros yn hyblyg i'r materion niferus sy'n codi ac ystyried y materion hynny.

5 Rwyf wedi addasu pwyslais ac ymagwedd fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Mae fy rhaglen waith wedi canolbwyntio ar themâu, gwersi a chyfleoedd sy'n ymwneud â llywodraethu'r GIG a lles staff y GIG. Rwyf wedi adolygu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu a chyflwyno'r brechlyn COVID-19. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi sôn am sut mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i'r pandemig, a'r effaith mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau. Rwyf

hefyd wedi adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith a gynlluniwyd sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd neu sy'n cael ei ail-gwmpasu.

7 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau ymgymryd â' fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2021.

8 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2021 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Cyflwynodd fy nhîm ef i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 7 Rhagfyr 2021. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod diweddarach o'r Bwrdd a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddiad ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

11 Fe wnes i ddod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd[1] wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir iawn a chyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i'r Senedd, i dynnu sylw at ddatgeliadau yn nodyn 21.1 o'r cyfrifon sy'n ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

12 Deuthum â naw mater archwilio, ynghyd â'm hargymhellion archwilio, i sylw swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd. Byddaf yn adolygu gweithredoedd y Bwrdd Iechyd fel rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2021-22.

13 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ac nid oedd ganddynt unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol ag awdurdodau nac a ddefnyddiwyd

[1] Rwy'n archwilio ac yn ardystio Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae 'cyfrifon' yn derm generig.

at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2020-21 y Bwrdd Iechyd.

14 Ochr yn ochr â fy marn archwilio, rwyf wedi cynnwys sylwebaeth Pwyslais ar Fater (EoM) sy'n tynnu sylw at nodyn 21 o'r cyfrifon archwiliedig. Mae'r nodyn yn disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ymdrin â'r angen am gamau adferol dros dro i fynd i'r afael ag effaith newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn uwch glinigwyr. Er na wnes i addasu fy marn archwilio mewn perthynas â'r mater hwn, rhoddais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- mae'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn gwneud cyfraniad pwysig at reoli COVID-19 yng Nghymru. Er bod y rhaglen yn ei chael hi'n anodd ymdopi â brigau cynharach o ran trosglwyddo firysau, mae wedi dangos y gallu i ddysgu ac esblygu'n gyflym mewn ymateb i'r heriau mae wedi'u hwynebu.
- mewn perthynas â'm gwaith ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Ers yr adolygiadau blaenorol yn 2015, mae trefniadau llywodraethu, rheoli a chynllunio wedi gwella, ond bydd effaith COVID-19 yn awr yn gofyn am strategaeth glir i adfer gwasanaethau a byddai manteision o hyd o ran adolygu'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn unol â'r ymrwymiadau o fewn 'Cymru Iachach'.
- Gwelais fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion ein Cydadolygiad o Lywodraethu Ansawdd yn 2019, yn enwedig o ystyried yr heriau a gyflwynwyd gan COVID-19. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r camau gweithredu wedi symud ymlaen mor gyflym ag y bwriadai'r Bwrdd Iechyd, ac mae gwaith i'w wneud o hyd i weithredu'n llawn yr argymhellion a wnaed yn 2019.
- mae rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru wedi'i chyflwyno ar gyflymder sylweddol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a'r DU yn cydweithio i frechu cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen cynllun cenedlaethol tymor hwy clir yn awr ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.
- mae holl gyrff y GIG wedi parhau i ganolbwyntio'n glir ar les staff drwy gydol y pandemig ac wedi gweithredu ystod eang o fesurau i gefnogi iechyd corfforol a lles meddyliol eu staff yn ystod yr argyfwng. Mae'n hanfodol bod y gweithgareddau hyn yn cael eu datblygu, a bod lles staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i gyrff y GIG wrth iddynt ddelio â heriau cyfunol adennill gwasanaethau, parhau i ymateb i bandemig COVID-19, a hefyd rheoli pwysau tymhorol.

- Yn gyffredinol, gwelais fod prosesau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan gan ddarparu hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni cynlluniau gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer adfer gwasanaethau arferol a mynd i'r afael ag ôl-groniadau ar restrau aros, fodd bynnag, bydd cyflawni'r rhain yn parhau i fod yn heriol.
- mae’r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan. Mae'n bwysig bod y trefniadau llywodraethu cyfunol hyn yn parhau i oruchwylio a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, ansawdd gofal, diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth glinigol a nodwyd mewn adolygiadau allanol amrywiol.
- cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21, ond bydd cyflawni arbedion arfaethedig yn 2021-22 yn heriol. Yn gyffredinol, mae rheolaethau ariannol yn briodol, a gwnaed cynnydd i fynd i'r afael â gwendidau blaenorol, ond mae gwelliannau pellach yn bosibl. Mae adroddiadau ariannol yn glir ac yn hygyrch, ond mae cyfleoedd i wella'r eglurder i ddarllenwyr heb gefndir ariannol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Y cyfrifon yw sut mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian parod. Mae paratoi'r cyfrifon yn elfen hanfodol wrth ddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

17 Mae fy Nghynllun Archwilio 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

18 Mae fy nghyfrifoldebau wrth archwilio cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn cael eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2020-21

19 Fe wnes ddod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir iawn a chyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater (EoM) yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â nodyn 21 o'r cyfrifon, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, sy’n ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG a ysgwyddir gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Ni wnes gymhwyso fy marn archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

20 Fe wnes i amlygu naw argymhelliad archwilio ar gyfer gwella i swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd fy holl argymhellion a nodi ei gamau gweithredu a'i ddyddiadau gweithredu arfaethedig. Byddaf yn adolygu gweithredoedd y Bwrdd Iechyd fel rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2021-22. Roedd y materion yn cynnwys:

- gwendidau wrth benodi dau uwch swyddog ac ymddeoliad a dychweliad uwch swyddog arall;
- gwendidau o ran adrodd am drafodiadau a balansau'r partïon cysylltiedig, mewn perthynas ag aelodau annibynnol ac uwch swyddogion; a’r
- angen am welliant parhaus o ran rheoli ariannol ac adrodd ar symiau sy'n ddyledus gan y Bwrdd Iechyd i drydydd partïon (ei rwymedigaethau).

21 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei gyfrifon drafft erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru, ac fe wnes i fodloni amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ardystio archwilio.

22 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy

Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd, a'i Fwrdd, ar 9 Mehefin 2021. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau sylweddol heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Adroddais am y pedwar camddatganiad mwyaf arwyddocaol sydd wedi'u cywiro. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â dosbarthiadau a datgeliadau cyfrifyddu. |
| Materion arwyddocaol eraill | Adroddais am naw argymhelliad ar gyfer gwella, gydag ymatebion ffurfiol y rheolwyr, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 17 Awst 2021. |

23 Cynhaliais adolygiad hefyd o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod y wybodaeth am atgyfnerthu cyfatebol yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2021 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

24 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol yn parhau ar hyn o bryd. Cefais y datganiadau ariannol drafft ar 3 Tachwedd 2021, ac rwyf i fod i adrodd fy nghanfyddiadau i Bwyllgor Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd ar 20 Ionawr 2022.

## Rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol

25 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ac nid oedd ganddynt unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol ag awdurdodau nac a ddefnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2020-21 y Bwrdd Iechyd.

26 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol ag awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn yr incwm ac ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau a'r profion hyn nad oes unrhyw

elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

27 Os nad yw Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn rheoleidd-dra. Mae **Arddangosyn 2 a 3** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf.

**Arddangosyn 2: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw**

| | **2018-19 £'000** | **2019-20 £'000** | **2020-21 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau gweithredu | 686,502 | 1,066,192 | 1,234,552 | 2,987,246 |
| Dyraniad adnoddau refeniw | 686,518 | 1,067,075 | 1,234,640 | 2,988,233 |
| Tan-wariant (tros) yn erbyn dyraniad | 16 | 883 | 88 | 987 |

**Arddangosyn 3: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau cyfalaf**

| | **2018-19** £'000 | **2019-20** £'000 | **2020-21** £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau cyfalaf | 24,168 | 38,328 | 52231 | 114,727 |
| Dyraniad adnoddau cyfalaf | 24,178 | 38,332 | 52278 | 114,808 |
| Tan (tros) wariant yn erbyn dyraniad | 8 | 10 | 47 | 81 |

Ffynhonnell: cyfrifon archwiliedig 2020-21

28 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, fel yr adroddwyd ym **mharagraff 19,** fe wnes i gynnwys sylwebaeth 'pwyslais ar fater' sy'n tynnu sylw at nodyn 21 o'r cyfrifon archwiliedig. Mae'r nodyn yn disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Gorffennais fy adroddiad drwy gadarnhau nad oeddwn wedi addasu fy marn rheoleidd-dra oherwydd, yn unol â safonau cyfrifyddu, nid oedd unrhyw wariant wedi'i gydnabod yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

29 Mae gennyf ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- archwilio sut mae cyrff y GIG wedi ymateb i'r heriau o gyflwyno'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu;
- adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;
- ymgymryd â chynnydd dilynol yn erbyn yr argymhellion yn ein Cydadolygiad o Lywodraethu Ansawdd yn 2019;
- adolygu pa mor dda yr oedd cyflwyno'r rhaglen frechu COVID-19 yn mynd rhagddo ledled Cymru;
- adolygu sut yr oedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19; a
- cynnal asesiad strwythuredig graddol o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

30 Mae fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu

31 Edrychodd fy ngwaith ar sut yr ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i'r heriau o ddarparu rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â rhoi sylwadau ar gyflwyno’r TTP hyd at a gan gynnwys Rhagfyr 2020, nododd fy adroddiad rai heriau a chyfleoedd allweddol a fydd yn cyflwyno eu hunain fel rhan o'r frwydr barhaus i reoli COVID-19.

32 Gwelais fod gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i adeiladu'r rhaglen TTP yn gyflym. Roedd ffurfweddiad y system yn cyfuno goruchwyliaeth ac arbenigedd technegol cenedlaethol gyda pherchnogaeth leol a rhanbarthol o'r rhaglen, a'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth a deallusrwydd lleol i lunio ymatebion.

33 Mae'r trefniadau ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau wedi esblygu wrth i'r pandemig fynd rhagddo. Ond roedd cynnal y perfformiad gofynnol yn y trefniadau hyn yn heriol yn wyneb y galw cynyddol.

34 Er gwaethaf mwy o weithgarwch profi ac olrhain, parhaodd y feirws i ledaenu, ac fel mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, mae angen wedi bod i ategu profion ac olrhain gyda chyfyngiadau cloi lleol a chenedlaethol mewn ymgais i leihau cyfraddau trosglwyddo.

35 Er bod amrywiaeth o fecanweithiau cymorth yn bodoli, mae'n dal yn anodd gwybod pa mor dda mae elfen 'amddiffyn' TTP wedi bod yn gweithio i gefnogi pobl i hunanynysu.

## Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

36 Ym mis Mai 2021, cyhoeddais fy adolygiad ar drefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC). Mae WHSSC yn gyd-bwyllgor sy'n cynnwys y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, ac mae'n cael ei ariannu gan y rhain. O ddydd i ddydd, mae'r Cydbwyllgor yn dirprwyo cyfrifoldeb gweithredol dros gomisiynu i swyddogion Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, drwy'r tîm rheoli. Mae gan WHSSC, a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gyllideb flynyddol o £680 miliwn ac mae'n gwneud penderfyniadau ar y cyd ar adolygu, cynllunio, caffael a monitro perfformiad gwasanaethau arbenigol ar gyfer poblogaeth Cymru ar ran byrddau iechyd.

37 Yn 2015, tynnodd dau adolygiad ar wahân sylw at faterion gyda threfniadau llywodraethu WHSSC. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y ddau adolygiad, ynghyd â phwysau cynyddol ar wasanaethau a phwysau ariannol cynyddol a'r dirwedd newidiol o gomisiynu cydweithredol, roeddwn i'n teimlo ei bod yn amserol adolygu trefniadau llywodraethu WHSSC.

38 Fe wnaeth fy adolygiad ganfod bod nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol yn WHSCC ers 2015. Gwnaed cynnydd da i gryfhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau arbenigol, er bod cwmpas yn dal i fodoli i gynyddu'r sylw a roddir i gyllid, perfformiad ac adrodd ar ansawdd yn y Cydbwyllgor. Mae angen hefyd adolygu'r trefniadau ar gyfer recriwtio a thalu aelodau annibynnol sy'n eistedd ar y Cydbwyllgor o ystyried rhai o'r heriau wrth lenwi'r swyddi hyn. Mae gan aelodau presennol y Cydbwyllgor berthynas waith iach ac mae'n gweithredu'n dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r model presennol yn creu gwrthdaro buddiannau posibl oherwydd bod rhai aelodau o'r Cydbwyllgor hefyd yn Brif Swyddogion y cyrff iechyd a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau arbenigol.

39 Canfu fy adolygiad fod y trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau a gomisiynir yn dda ar y cyfan a bod canolbwyntio gwell ar werth. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau newydd allweddol megis modelau gwasanaeth newydd ar gyfer llawdriniaethau trawma a thorasig mawr wedi cymryd amser hir i gytuno a gweithredu. Canfu fy adolygiad hefyd fod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau arbenigol, ac y dylai datblygu cynllun ar gyfer adfer gwasanaethau arbenigol fod yn flaenoriaeth yn awr. Mae cynllun

hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach, yn arwydd o'r bwriad i adolygu nifer o swyddogaethau cenedlaethol a gynhelir, gan gynnwys WHSSC, gyda'r nod o 'gyfuno gweithgarwch cenedlaethol ac egluro llywodraethu ac atebolrwydd'.

40 Er bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer WHSSC wedi parhau i wella, mae fy adroddiad yn dangos bod nifer o agweddau o hyd ar fodel WHSSC sy'n haeddu sylw pellach.

## Trosolwg o drefniadau llywodraethu ansawdd: crynodeb o'r cynnydd yn erbyn argymhellion y Cydadolygiad

41 Ymgymerais â gwaith ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i fesur cynnydd hyd yma yn erbyn y 14 argymhelliad gwreiddiol a wnaed yn ein hadolygiad yn 2019 o drefniadau llywodraethu ansawdd. Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion, yn enwedig o ystyried yr heriau a gyflwynwyd gan COVID-19. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r camau gweithredu wedi symud ymlaen mor gyflym ag y bwriadai'r Bwrdd Iechyd.

42 Gwelais fod cynnydd wedi'i wneud ar lefel strategol, gyda mwy o bwyslais ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg. Mae atebolrwydd am ansawdd a diogelwch yn gliriach, gyda chyfrifoldebau gweithredol wedi'u diffinio'n glir yn Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd. Roedd craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion wedi gwella gyda llifau cliriach o sicrwydd o wasanaethau i'r Bwrdd. Cymerwyd camau cadarnhaol hefyd gan y Bwrdd o ran gwella ei ddiwylliant a'i ddysgu sefydliadol.

43 Er gwaethaf hyn, nid oeddwn yn gallu barnu bod unrhyw un o'r 14 argymhelliad gwreiddiol wedi'u cwblhau. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar gydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion ac ymgorffori'r trefniadau diwygiedig. Mae gwaith hefyd yn parhau i fynd rhagddo i fynd i'r afael â materion diwylliannol a grymuso ymreolaeth ymhlith clinigwyr sydd wedi'u hamlygu mewn adroddiadau diweddar.

## Rhaglen frechu COVID-19

44 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddais ganfyddiadau fy adolygiad cychwynnol o gyflwyno'r rhaglen COVID-19 yng Nghymru. Ystyriodd fy ngwaith y ffactorau a effeithiodd ar y broses o gyflwyno a heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.

45 Cefais fod y rhaglen frechu wedi'i chyflwyno ar gyflymder sylweddol. Ar adeg adrodd, cyfraddau brechu yng Nghymru oedd yr uchaf o bedair gwlad y DU, a rhai o'r uchaf yn y byd. Roedd y cerrig milltir yn strategaeth frechu Llywodraeth Cymru yn rhoi hwb cryf i sbarduno'r rhaglen a hyd at yr adeg adrodd, roedd y cerrig milltir allweddol wedi'u bodloni.

46 Mabwysiadwyd canllawiau Cyd-bwyllgor y DU ar Frechu ac Imiwneiddio ar grwpiau blaenoriaeth, ond mae'r broses o nodi pobl o fewn rhai o'r grwpiau hynny wedi bod yn heriol.

47 Mae'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun wedi gweithio'n dda i sefydlu ystod o fodelau brechu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r brechlynnau sydd ar gael, tra hefyd yn darparu cyfleoedd i ddarparu brechlynnau yn agos at y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

48 Roedd y nifer a oedd yn manteisio ar y brechlyn yn gyffredinol i'r adeg adrodd yn uchel, ond roedd llai o ddefnydd i rai grwpiau ethnig ac yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Ar adeg yr archwiliad, ychydig iawn o wastraff o ran brechlynnau oedd ond roedd pryderon yn dod i'r amlwg am ddiffyg presenoldeb mewn apwyntiadau a drefnwyd.

49 Y gadwyn gyflenwi ryngwladol yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y broses o gyflwyno'r brechlyn gyda stoc gyfyngedig o frechlynnau yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd cynyddu ymwybyddiaeth o lefelau cyflenwi yn y dyfodol yn caniatáu i fyrddau iechyd reoli'r broses o gyflwyno'r brechlyn yn effeithiol.

50 Wrth i'r rhaglen symud i ail hanner 2021, roedd heriau'n cael eu cyflwyno o ran annog pobl i gymryd rhan mewn rhai grwpiau, cydnerthedd y gweithlu brechlyn ac os oedd lleoliadau ar gael. Nodais yr angen am gynllun tymor hwy i fynd i'r afael â'r rhain ac elfennau eraill o'r rhaglen frechu barhaus.

## Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19

51 Ystyriodd fy adolygiad sut mae cyrff y GIG yng Nghymru wedi cefnogi lles eu staff yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio'n benodol ar eu trefniadau ar gyfer diogelu staff sydd mewn mwy o berygl o COVID-19.

52 Mae staff y GIG wedi dangos cadernid ac ymroddiad aruthrol drwy gydol y pandemig, er eu bod yn wynebu straen enfawr ar eu hiechyd meddwl a chorfforol.

53 Roedd y GIG yng Nghymru eisoes yn wynebu nifer o heriau yn ymwneud â lles staff cyn y pandemig, ac mae'r argyfwng wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl a chorfforol gweithlu'r GIG. Drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, gwelais fod cyrff y GIG wedi symud yn gyflym ar ddechrau'r pandemig i wella mentrau lles i gefnogi staff drwy gyfnodau digynsail. Wrth i'r pandemig ddatblygu, gwelais fod cyrff y GIG yng Nghymru wedi gweithredu ystod o fesurau i wella lles staff, megis creu mannau gorffwys pwrpasol, cynyddu'r ddarpariaeth iechyd meddwl a lles seicolegol, gwella mesurau rheoli heintiau ac atal, a galluogi gweithio o bell.

54 Edrychodd fy ngwaith hefyd ar sut yr oedd cyrff y GIG yng Nghymru yn amddiffyn staff mewn mwy o berygl o COVID-19. Ymhlith mentrau diogelu eraill, gwelais fod pob corff wedi cyflwyno Offeryn Asesu Risg y Gweithlu COVID-19 Cymru Gyfan sy'n nodi'r rhai sydd mewn mwy o berygl ac yn annog sgwrs am fesurau ychwanegol i'w rhoi ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu diogelu'n ddigonol. Er bod cyrff y GIG yn hyrwyddo ac yn annog staff i gwblhau'r offeryn asesu, roedd cyfraddau cwblhau yn amrywio rhwng cyrff y GIG.

55 Er bod yr argyfwng yn ddi-os wedi cael effaith sylweddol ar les staff yn y tymor byr, ni ellir tanbrisio'r effeithiau tymor hwy.

56 Gyda gweithlu wedi'i ddihysbyddu'n emosiynol ac yn gorfforol mwy nag erioed, rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru barhau i ganolbwyntio ar les staff ac ymgysylltu â staff er mwyn llywio drwy effeithiau tymor hwy yr argyfwng. Felly, mae rhestr wirio yn cyd-fynd â fy adroddiad sy'n nodi rhai o'r cwestiynau y dylai aelodau Bwrdd y GIG fod yn eu gofyn i sicrhau bod gan eu cyrff iechyd drefniadau da ar waith i gefnogi lles staff.

## Asesiad strwythuredig

57 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Fe wnes i sicrhau dull pragmatig a pherthnasol addas i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i'r pandemig. Ymgymerodd fy nhîm â'r gwaith mewn dau gam eleni:

- ystyriodd cam 1 y trefniadau cynllunio sy'n sail i ddatblygu a chyflawni'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar o 2020-21.
- ystyriodd cam 2 sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi'u haddasu dros y flwyddyn. Cyfeiriodd archwilwyr hefyd at y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Trefniadau cynllunio gweithredol

58 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn sail i'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar o 2020-21. Roedd y fframwaith cynllunio yn ymdrin â chynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i lywio eu hymateb i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a gosod y sylfeini ar gyfer adfer gwasanaethau'n effeithiol.

59 Gwelodd fy ngwaith fod prosesau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan gan ddarparu hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni cynlluniau gweithredol.

60 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Chwarter 3-4 yn unol â'r estyniad y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y cynllun yn bodloni gofynion canllawiau fframwaith cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn derbyn y gwaith craffu gofynnol gan y Bwrdd.

61 Roedd y Cynllun Chwarter 3-4 yn ddilyniant o'r ddau gynllun chwarterol blaenorol ac fe'i hysbyswyd gan alw cadarn a modelu capasiti. Er bod y Cynllun Chwarter 3-4 yn cynnwys datganiadau lefel uchel am yr hyn mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio'i gyflawni drwy gyflawni'r cynllun, nid yw'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu penodol, mesuradwy ac amserol ar gyfer cyflawni. Mae cyfleoedd hefyd i gryfhau'r gwaith monitro ac adrodd ar gynnydd i gyflawni cynlluniau gweithredol. Ar adeg ein

hadolygiad, nid oedd y Bwrdd na'i bwyllgorau wedi derbyn adroddiadau ffurfiol yn eu galluogi i graffu ar gynnydd i gyflawni'r Cynllun Chwarter 3-4.

## Trefniadau llywodraethu

62 Ystyriodd fy ngwaith allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn wrth orfod ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Roedd y gwaith yn canolbwyntio fwyaf ar drefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Ystyriais hefyd sut y cafodd busnes a ohiriwyd yn 2020 ei adfer a sut mae dysgu o'r pandemig yn llunio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu ac adferiad da parhaus.

63 Gwelodd fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau bwrdd a phwyllgorau effeithiol ac mae wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer adfer gwasanaethau arferol a mynd i'r afael ag ôl-groniadau mewn rhestrau aros. Fodd bynnag, bydd cyflawni'r cynlluniau hyn yn parhau i fod yn heriol. Codwyd nifer o bryderon am wasanaethau ac ansawdd, mewn meysydd gan gynnwys Offthalmoleg a'r adran frys yn Ysbyty'r Tywysog Charles. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd wedi tynnu sylw at bryderon difrifol ynghylch darparu rhai gwasanaethau iechyd meddwl ac, ym mis Mehefin 2021, fe wnaeth Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru osod Tŷ Llidiard i'r lefel uchaf o uwchgyfeirio, gan adlewyrchu eu pryderon.[2] Mae gwaith o hyd i fynd i'r afael yn llawn â'r holl argymhellion o adolygiadau allanol a mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a diwylliant clinigol.

64 Gwelais fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol. Mae trefniadau rheoli risg wedi gwella, er bod gwaith pellach o hyd i sicrhau bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn galluogi craffu da ar risgiau strategol.

65 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer adfer a mynd i'r afael ag ôl-groniadau o restrau aros, gwelais y bydd ymateb i COVID-19 ac adfer gwasanaethau arferol yn parhau i fod yn heriol. Mae adroddiadau diweddar wedi tynnu sylw at bryderon mewn nifer o wasanaethau, ac mae hyn yn gofyn am ganolbwyntio parhaus gan y Bwrdd Iechyd.

## Rheoli adnoddau ariannol

66 Ystyriais berfformiad ariannol, rheolaethau ariannol a threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Gwelais fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21, ond bydd cyflawni arbedion arfaethedig yn 2021-22 yn heriol. Yn gyffredinol, mae rheolaethau ariannol yn briodol, a gwnaed cynnydd i fynd i'r afael â gwendidau blaenorol, ond mae gwelliannau pellach yn bosibl. Mae adroddiadau ariannol yn glir ac yn hygyrch, ond mae cyfleoedd i wella.

[2] Uned iechyd meddwl i'r glasoed yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr.

67 Ar ddiwedd 2020-21, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fodloni ei ddyletswydd ariannol i glirio’i gostau hyd yn oed dros gyfnod treigl o dair blynedd. Mae COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y costau refeniw a gwariant a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei gynllun ariannol ar gyfer 2020-21. Yn 2021-22, bydd cyflawni arbedion arfaethedig yn heriol i gyrraedd targedau ariannol.

68 Yn gyffredinol, gwelais fod gan y Bwrdd Iechyd reolaethau ariannol priodol ac mae'n gwneud cynnydd da i adolygu a chywiro hen rwymedigaethau cyfredol, fodd bynnag, mae cyfleoedd pellach i wella rheolaethau sy'n ymwneud â gwariant staffio asiantaethau.

69 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu adroddiadau ariannol clir a hygyrch, fodd bynnag, gellid gwneud y crynodeb lefel uchel yn gliriach i helpu dealltwriaeth i’r rheini nad oes ganddynt gefndir ariannol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2021.

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mehefin 2021 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2021 |
| Atodiad Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Awst 2021 |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2019-20) | Ionawr 2021 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwneud pethau'n Wahanol, Gwneud pethau'n Iawn? (Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan sy'n ymwneud â llywodraethu'r GIG yn ystod COVID-19) | Ionawr 2021 |
| Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd hyd yma | Mawrth 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 1 Trefniadau Cynllunio Gweithredol | Ebrill 2021 |

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| Trosolwg o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion | Mai 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Mai 2021 |
| Cyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Mehefin 2021 |
| Gofalu am y gofalwyr?<br>(Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan sy'n ymwneud â lles staff y GIG yn ystod COVID-19) | Hydref 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 2 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol | Tachwedd 2021 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2021 | Ionawr 2021 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2021 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Rhagfyr 2021<br>Mae amseriad y gwaith pellach sy'n cael ei gynnwys fel rhan o gynllun 2022 i'w gadarnhau o hyd |
| Orthopedeg | Ionawr 2022 |
| Adolygiad o'r trefniadau comisiynu a chontractio ar ôl newid ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr | Ionawr 2022 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Mae fy llythyr ffi 2021 dyddiedig 8 Mawrth 2021 yn nodi amcangyfrif o’r ffi o £442,859 (ac eithrio TAW, na ellir ei godi). Ar hyn o bryd rwy'n disgwyl i'r ffi wirioneddol fod ychydig yn is na'r amcangyfrif, o ryw £2,000 i £3,000. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân i gadarnhau'r ffi derfynol, a fydd, os yw'n is na'r amcangyfrif, yn arwain at ad-daliad bach.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

Mae fy Nghynllun Archwilio 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2020-21 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

**Arddangosyn 6: risgiau archwilio ariannol**

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Byddaf yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol; ac<br>• ychwanegu gweithdrefnau ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o ran gwrth-wneud gan reolwyr nad ydynt yn cael sylw gan y gwaith gorfodol uchod. | Adolygais nifer o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o drafodiadau a oedd yn cynnwys cofnodion cyfnodolion. Unwaith eto, ymgymerais â gwaith archwilio estynedig sylweddol mewn perthynas â rhwymedigaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd.<br>Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol iawn. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, fe wnaeth byrddau iechyd roi’r gorau i gael terfynau adnoddau blynyddol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Yn hytrach, symudodd byrddau iechyd i derfyn adnoddau tair blynedd treigl ar gyfer refeniw a chyfalaf, gyda'r cyfnod tair blynedd cyntaf felly'n rhedeg i 31 Mawrth 2017.<br>Er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yn gweithredu o fewn ei derfynau refeniw ac adnoddau cyfalaf am y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, mae perygl na fydd yn gwneud hynny. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol ar gyfer y terfyn adnoddau cyfalaf, oherwydd dros y tair blynedd diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael gwarged cronnol o ddim ond £42,000 yn erbyn terfyn adnoddau o £102.5 miliwn. | Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 a'r sefyllfa gronnol o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021.<br>Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol heb eu cywiro dros y tair blynedd hynny.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni'r terfynau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl cymhwyso fy marn rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2020-21. Byddwn hefyd yn disgwyl rhoi adroddiad sylweddol ar y datganiadau i esbonio sail y cymhwyster a'r amgylchiadau yr oedd wedi codi oddi tano. | Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniadau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Fel yr adroddwyd i chi y llynedd, mae gennyf bryderon ynghylch dilysrwydd nifer sylweddol a gwerth rhwymedigaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd. Ers fy archwiliad ar gyfer 2019-20, mae'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio ei gofnodion ar 31 Awst 2020 (mis 5). Rwyf wedi cynnal profion dilynol yn seiliedig ar fis 5 ac wedi trosglwyddo fy nghanfyddiadau i swyddogion. Ym mis Tachwedd, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd y bydd rhwymedigaethau gwerth tua £19 miliwn yn cael eu dileu; a bydd rhwymedigaethau gwerth cyfanswm o £4 miliwn (nad wyf wedi'u hadolygu eto) yn cael eu cyflwyno.<br>Er bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith adferol, sy'n gwneud cynnydd da, mae perygl o hyd bod ei rwymedigaethau presennol yn cael eu camddatgan yn sylweddol. | Yn dilyn fy archwiliad o'r sefyllfa ym mis 5, rwyf wedi cytuno â'r Bwrdd Iechyd i adolygu a phrofi ei sefyllfa ym mis 11 (yn amodol ar i'r Bwrdd Iechyd gwblhau ei adolygiad a phostio'r holl gywiriadau sydd eu hangen, ym mis 11).<br>Byddaf hefyd yn profi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn fel arfer. | Ymgymerais â lefel sylweddol o brofion archwilio ychwanegol, a oedd yn cynnwys archwilio Mis 5 (31 Awst 2020) a Mis 11 (28 Chwefror 2021).<br>Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol iawn, er i mi wneud argymhelliad ffurfiol i wneud gwelliannau pellach ar gyfer 2021-22. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gall y pwysau ar adnoddau staff a gweithio o bell effeithio ar baratoi ac archwilio cyfrifon. Mae perygl y gallai ansawdd y cyfrifon a phapurau gwaith ategol gael eu peryglu gan arwain at fwy o achosion o gamgymeriadau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu yr adnoddau sydd ar gael. | Byddaf yn trafod eich proses cau a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn monitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddaf yn helpu i nodi meysydd lle y gallai fod bylchau yn y trefniadau. | Fe wnes i fonitro a gwerthuso'r risg hon yn rheolaidd ac rwy'n falch o adrodd nad oedd unrhyw broblemau sylweddol yn codi. |
| Bydd y ffrydiau ariannu cynyddol a'r gwariant yn 2020-21 i ddelio â phandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar beryglon camddatganiad perthnasol a siâp ac ymagwedd ein harchwiliad. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys cyfrif am ysbytai maes a'u costau cysylltiedig; twyll, gwallau a risgiau rheoleidd-dra gwariant ychwanegol; gwerth y rhestr diwedd blwyddyn, gan gynnwys PPE; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddaf yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer ein harchwiliad. | Edrychais ar drafodiadau a balansau yn ymwneud â COVID-19. Cymhwysais berthnasedd is i ysbytai maes y Bwrdd Iechyd, a arweiniodd at rai profion estynedig.<br>Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae gweithredu'r fenter 'cynllun yn talu' mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn parhau. Y llynedd, fe wnes i gynnwys paragraff 'Pwyslais ar Fater' yn fy marn archwilio gan dynnu sylw at eich datgeliad o'r atebolrwydd amodol. Fodd bynnag, os bydd unrhyw wariant yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, byddem o'r farn ei fod yn afreolaidd, gan ei fod yn mynd yn groes i ofynion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. | Byddaf yn adolygu'r dystiolaeth mewn blwyddyn mewn perthynas â'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn rheoleidd-dra. | Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, ychwanegais destun Pwyslais ar Fater ochr yn ochr â'm barn archwilio, a rhoddais adroddiad sylweddol ar y cyfrifon.<br>Ni wnes gymhwyso fy marn rheoleidd-dra gan nad oedd unrhyw wariant o fewn cyfrifon 2020-21. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.